

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
CYFARFOD MISOL Y CYNGOR
CYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Maer, Cyng. Gareth John, oedd yn llywyddu dros y cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Peter Hughes Griffiths, Gareth John, Alun Lenny, Ken Lloyd, Ioan Matthews, Miriam Moules, Emlyn Schiavone, Jeff Thomas a Wyn Thomas

Mr Alun Harries – Clerc y Cyngor Dref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Glerc y Dref a Rheolwr Cyllid
Mrs Catrin Llwyd – Cyfieithydd

286. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Phil Grice, Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd a Barry Williams.

287. Datgan Buddiannau

Y Cynghorwyr Ken Lloyd ac Emlyn Schiavone ar gyfer eitem 294 (isod), yn ymwneud â chymorth ariannol i sefydliadau lleol oherwydd eu rolau fel ymddiriedolwyr Oriol Myrddin.

288. Cwestiynau gan aelodau

Dim

289. Cwestiynau gan y cyhoedd

Dim

290. Cadarnhau a llofnodi Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Alun Lenny a **PHENDERFYNWYD** y dylid derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.

291. Cadarnhau a llofnodi cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2022.

Cynigiwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths, eiliwyd gan y Cyng. Miriam Moules a **PHENDERFYNWYD** y dylid derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

292. Ystyried argymhellion y Pwyllgor neu materion sy'n codi

(i) Tudalen 69: Eitem 273 – Mynwent Eglwys Dewi Sant

Trafodwyd yr angen am wybodaeth fanylach am y costau posibl i'r Cyngor Tref o gael rhan yn y gwaith o reoli/cynnal a chadw Mynwent Dewi Sant. Cynigiodd y Cyng. Ioan Matthews y dylid gohirio penderfyniad ar y mater hwn fel y gellir ceisio mwy o wybodaeth ynglŷn â'r goblygiadau i'r Cyngor Tref. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Emlyn Schiavone, a **CHYTUNWYD** ar y gohirio.

(ii) Tudalen 70: Eitem 274 - Protocol Datrysiaid Lleol Enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r protocol diwygiedig.

(iii) Tudalen 70: Eitem 275 – Cofeb Ryfel y Sir, Heol y Prior

Cynigiodd y Cyng. Alun Lenny eiriad diwygiedig a oedd yn cyd-fynd â'r gofeb fel cofeb y sir: "Er cof am bawb o Sir Gaerfyrddin a ddioddefodd oherwydd rhyfel". Eiliodd y Cyng. Emlyn Schiavone y diwygiad a gynigiwyd; roedd yr holl aelodau o blaid a **CHYTUNWYD** ar y geiriad.

293. Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 13 Ionawr 2022

Cynigiwyd gan y Cyng. Ken Lloyd, ac eiliwyd gan y Cyng. Emlyn Schiavone a **PHENDERFYNWYD** y dylid derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar yr 13eg o Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

294. Ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid neu faterion sy'n codi

Datganodd y Cyng. Ken Lloyd a'r Cyng. Emlyn Schiavone fuddiant ynghylch cymorth ariannol i fudiadau lleol oherwydd eu bod yn ymddiriedolwyr Oriol Myrddin a thynodd y ddau allan o'r drafodaeth ar yr eitem benodol hon.

Cafodd y pedwar argymhelliad a nodir isod eu trafod a'u gweithredu fel un ar gyfer argymhelliad y Cyngor:

- (i) Cymeradwyo mewn egwyddor yr holl brosiectau cyfalaf a restrir yng nghofnodion y Pwyllgor.
- (ii) Dylid derbyn y rhestr o wariant ar gefnogaeth ariannol i sefydliadau lleol a digwyddiadau canol tref fel y'i cyflwynir yn y cofnodion.
- (iii) Dylid derbyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23
- (iv) Gweithredu praesept heb ei newid ar gyfer 2022/23 h.y., £788,855.58 gan gynnwys y sylfaen dreth ddiwygiedig.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r pedwar argymhelliad uchod yn ymwneud â chyllideb y flwyddyn nesaf a'r praesept. Cofnododd y Maer ei ddiolch unwaith eto i staff y Cyngor Tref am eu gwaith i baratoi cyllideb y flwyddyn nesaf.

Adroddiad Clerc y Dref

295. Cynllunio

- (i) **PL/03279** - Dymchwel y storfa fwyd bresennol i hwyluso ailddatblygiad preswyl, ynghyd â mynedfeydd cysylltiedig i gerbydau a cherddwyr, meysydd parcio, ardaloedd amwynder, storfeydd beiciau a biniau, tirlunio a datblygiad atodol: paratoi'r safle, clirio, trin, ail-broffilio a gosod gwasanaethau a seilwaith newydd - Archfarchnad Lidl, Heol y Prior, Caerfyrddin, SA31 1LS.

Nododd y Clerc nad oedd manylion y cais cynllunio wedi newid ers y ymgynghoriad cyn-cynllunio ym mis Rhagfyr pan oedd yr aelodau wedi gweld y cynlluniau am y tro cyntaf. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag argaeledd parcio yn yr ardal i gefnogi'r datblygiad hwn. Cynigiodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths y dylid cyflwyno sylwadau i'r adran gynllunio am brinder parcio yn yr ardal a phroblemau posibl i weithwyr iechedd a gofal cymdeithasol sydd angen ymweld â thrigolion. Eiliodd y Cyng. Ken Lloyd y cynnig a chytunodd y dylid codi ymholiad. Roedd pob aelod yn cytuno a **PHENDERFYNWYD** y dylid gwneud sylw ynglŷn â pharcio yn yr ardal.

296. Priffyrdd

(i) Ymgynghoriad ar Ailddatblygu Gorsaf Fysiau Caerfyrddin

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i'r cynigion a **CHYTUNWYD** y dylai unigolion ymateb i'r ymgynghoriad os oes ganddynt sylwadau i'w gwneud.

297. Trwyddedu

Math o Gais: **Cais Mân Amrywiad**

Enw a Chyfeiriad yr Eiddo: **Gorsaf Betrol Heol Dinbych-y-pysgod, Heol Llysonnen, Bancyfelin, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA33 5DT**

Manylion y cais: **Diwygio amodau'r drwydded eiddo.**

Cyfnod ymgynghori yn dechrau: **13/01/2022** Rhaid cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch y cais hwn o fewn **10 diwrnod gwaith** i ddyddiad cychwyn yr ymgynghoriad uchod.

PENDERFYNWYD na ddylid gwneud unrhyw sylw ar y cais.

298. Dathliadau Dewi Sant Caerfyrddin 2022

NODODD yr aelodau y diweddariad gan y Maer, ac adroddiad y Clerc.

299. Gweledigaeth Tai a Rennir – Caerfyrddin

NODODD yr Aelodau y diweddariad.

300. men2men Caerfyrddin

NODODD a chroesawodd yr aelodau y diweddariad.

301. Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin – BID

NODWYD y cylchlythyr

302. Gohebiaeth

Dim

303. Adroddiad y Maer

Ers y cyfarfod diwethaf, adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn bresennol yn y digwyddiadau canlynol:

Rhagfyr

24ain Eglwys Crist – Darllen yn Oedfa Noswyl Nadolig

Ionawr

Casglu gwobr cystadleuaeth Santes Dwynwen a Ilun – Co-op, Heol Ffynnon Job.

Cyfarfodydd amrywiol yn ymwneud â mentrau cymunedol.

304. Adroddiadau gan Gynghorwyr fel Cynrychiolwyr y Cyngor ar gyrrff allanol

- (i) Cofnododd y Cyng. Ken Lloyd bresenoldeb ym Mhwyllgor Ardal Un Llais Cymru a oedd yn cynnwys cyflwyniadau ar ddiogelwch a gwaith ataliol gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru, gwybodaeth am argaeledd arian Treftadaeth y Loteri a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.
- (ii) Rhannodd y Cyng. Peter Hughes Griffiths wybodaeth am gyhoeddiad a lansiad arfaethedig o lyfr 'The Town That Margaret Loved'. Y dyddiad lansio fydd dechrau mis Mawrth a chynigiwyd Neuadd Ddinesig San Pedr fel lleoliad addas. Croesawodd yr aelodau'r diweddariad a chytunwyd gyda'r lleoliad lansio a gynigiwyd.
- (iii) Croesawodd y Cyng. Emlyn Schiavone y diweddariad gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths a chroesawodd y cynnydd sy'n cael ei wneud gan y grŵp unigrwydd dan gadeiryddiaeth y Cyng. Miriam Moules.
- (iv) Mae'r Cyng. Miriam Moules wedi cadeirio cyfarfod arall o'r cyfarfod unigrwydd ar y 10fed o Ionawr; bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal ym mis Mawrth. Mae'r cyfeiriadur llesiant ar gyfer Caerfyrddin wedi'i gwblhau gan y myfyrwyr a oedd wedi bod yn cynorthwyo'r Cyngor Tref gyda'r prosiect hwn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.28y.h.